O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1272 (Cy. 162)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Mallwyd, Gwynedd a'r Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mai 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Mallwyd, Gwynedd a'r Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 21 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A458 rhwng Mallwyd yn Sir Gwynedd a'r Trallwng yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Mai 2012

*G R Morgan*
**G R MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

## YR ATODLEN

Mallwyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o fynedfa ac allanfa ddwyreiniol Cylchfan yr A470 ym Mallwyd i ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Pont Wrysgen.

Ardal Pont Nant yr Hedydd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Nant yr Hedydd i ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Tal y Glannau.

Ffin Sir Powys i Ddôl-y-maen

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Sir Powys yn Nant y Dugoed i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2055 yn Nôl-y-maen.

Four Crosses i Bont Neuadd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2041 yn Four Crosses i ganolbwynt ei chyffordd â'r A495 ym Mhont Neuadd.

Hydan Cottages i Oakfield

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Tyn y Coed i ganolbwynt ei chyffordd â'r C2197 ger Cyfronnydd.

Sylfaen i'r Trallwng

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4385 yn Sylfaen i fynedfa ac allanfa orllewinol Cylchfan Raven, y Trallwng.